

Rhaglen Chwaraeon Perfformiad Uchel Prifysgol Caerdydd Polisi Derbyn

1. Cefndir

1.1. Mae gennym raglen chwaraeon perfformiad uchel (HPP) i helpu myfyrwyr sy'n gallu dangos cyflawniad chwaraeon cyfredol ar lefel ryngwladol yn eu gyrfa academiaidd a chwaraeon wrth astudio gyda ni.

1.2. Mae'r rhaglen yn darparu ystod o wasanaethau i fyfyrwyr-athletwyr elitaidd dethol i:

- galluogi athletwyr elitaidd i barhau i hyfforddi a chystadlu ar y lefel uchaf wrth astudio
- cynyddu lefel perfformiad athletwyr
- darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar athletwyr
- darparu'r amgylchedd cymorth a hyfforddiant gorau
- gwella safle BUCS y Brifysgol yn barhaus.

Am ragor o wybodaeth gweler ein tudalennau gwe [Rhaglen Perfformiad Uchel](#).

1.3. Rydym yn cydnabod:

- Efallai y bydd ymgeiswyr sy'n hyfforddi i lefel elitaidd yn cael llai o gyfleoedd i ymgymryd â phrofiad gwaith neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol y tu hwnt i'w camp.
- Gall ymrwymadau chwaraeon ar lefel ryngwladol effeithio ar astudiaeth academiaidd ymgeisydd, yn enwedig wrth astudio cymwysterau llinol fel Safon Uwch llinellol. O ganlyniad, efallai na fydd canlyniadau terfynol ymgeisydd yn dangos graddau i'w allu llawn neu, gall ymgeiswyr gymryd mwy o amser na'r amserlen safonol i gwblhau eu cymwysterau.

2. Ymgeisio i Brifysgol Caerdydd - ein hymrwymiad

2.1. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir sydd â'r potensial a'r penderfyniad i lwyddo ar ein rhaglenni astudio. Naill ai cyn neu ar yr adeg rydych chi'n barod i wneud cais am eich astudiaeth academiaidd ym Mhrifysgol Caerdydd, rydyn ni'n argymhell cysylltu â Clare Daley, Cyfarwyddwr Chwaraeon Perfformiad, yn daleyc1@caerdydd.ac.uk mewn perthynas â'r HPP.

2.2. Ar gyfer ymgeiswyr israddedig a ddewiswyd ar gyfer y HPP, os byddwch yn gwneud cais erbyn y dyddiad cau priodol ar gyfer gwneud cais, byddwn yn ystyried effaith yr ymrwymadau chwaraeon fel rhan o'r broses dderbyn fel a ganlyn.

2.2.1. Ar gyfer rhaglenni **nad oes** angen cyfweiliad, clyweliad neu adolygiad portffolio arnynt:

Pan fydd ymgeisydd yn dilyn neu wedi cyflawni cymwysterau priodol ar gyfer y cwrs y maent wedi gwneud cais amdano, bydd cynnig yn cael ei wneud ar un radd yn is na'r cynnig safonol (yn nodweddiadol pen isaf yr ystod graddau a hysbysebir).

2.2.2. Ar gyfer rhaglenni **sydd angen** cyfweiliad, clyweliad, neu adolygiad portffolio, ac eithrio holl raglenni Deintyddiaeth a Gwyddorau Gofal Iechyd, a Meddygaeth (MBBCh):

Pan fydd ymgeisydd yn cymryd a / neu wedi cyflawni cymwysterau priodol ar gyfer y cwrs y maent wedi gwneud cais amdano, bydd yr ymgeisydd yn sicr o gael cyfweiliad, clyweliad neu adolygiad portffolio.

Os bydd cynnig yn cael ei wneud yn dilyn y broses ddethol, bydd hyn ar un radd yn is na'r cynnig safonol (yn nodweddiadol pen isaf yr ystod graddau a hysbysebir).

2.2.3. Ar gyfer pob rhaglen gwyddorau Gofal Iechyd, BSc Therapi a Hylendid Deintyddol, a Hylendid Deintyddol DipHE:

Lle bo ymgeisydd yn dilyn a/neu wedi cyflawni cymwysterau priodol ar gyfer y cwrs y mae wedi gwneud cais amdano, bydd yr ymgeisydd yn cael pwyntiau ychwanegol yn y broses sgorio a dethol a ddefnyddir i benderfynu ar y rhai a wahoddir i gyfweiliad.

Os bydd cynnig yn cael ei wneud yn dilyn y broses ddethol, bydd hyn ar un radd yn is na'r cynnig safonol (fel arfer pen isaf yr ystod graddau a hysbysebir).

2.2.4. Ar gyfer rhaglenni Meddygaeth (MBBCh) a Deintyddiaeth (BDS) yn unig:

Pan fydd ymgeisydd yn cymryd a / neu wedi cyflawni cymwysterau priodol ar gyfer y cwrs y maent wedi gwneud cais amdano, rhoddir pwyntiau ychwanegol i'r ymgeisydd yn y broses sgorio a dethol a ddefnyddir i bennu'r rhai sydd i'w gwahodd i gyfweiliad.

2.3 Ar gyfer ymgeiswyr ôl-raddedig sy'n cael eu dewis ar gyfer y HPP, os gwnewch gais erbyn y dyddiad cau priodol ar gyfer gwneud cais, byddwn yn ystyried effaith yr ymrwymadau chwaraeon fel rhan o'r broses dderbyn fesul achos.